Adolygiad Blynyddol



2004-2005

Arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

Cyngor Rheolaeth Cymru

Wales Management Council

EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Corff y mae cyflogwyr yn ei arwain yw Cyngor Rheolaeth Cymru, sy'n derbyn nawdd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, i hybu datblygiad rheolwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Ein cenhadaeth yw:

Helpu rheolwyr yng Nghymru i arwain a rheoli mewn modd llwyddiannus.

Rydym

yn arwain Cymru tuag at ragoriaeth rheolaeth

a'n nod yw:

Ysbrydoli, cymell ac ysgogi newid yn y ddirnadaeth ynglŷn â chyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac yn y modd o'u darparu, y nifer sy'n manteisio arnynt a nawdd ar eu cyfer yng Nghymru.

trwy

- argyhoeddi pob rheolwr o'r manteision ddaw yn sgîl datblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- ymchwilio yn drylwyr i nodi gwir anghenion datblygu rheolwyr Cymru
- gwneud yn siŵr bod rheolwyr yn gallu sicrhau hyfforddiant a datblygiad hyblyg, o safon uchel
- rhannu arfer gorau rheolwyr y DU a rheolwyr rhyngwladol ymhlith holl fusnesau Cymru
- mesur cynnydd o'i gymharu â meincnodau credadwy.

© Cyngor Rheolaeth Cymru 2005

Caniateir atgynhyrchu adrannau o'r ddogfen hon cyn belled â bod cydnabyddiaeth lawn yn cael ei rhoi i'r cyhoeddwr, sef Cyngor Rheolaeth Cymru.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Blwch Post 61
25 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 1AA

Ffôn: 029 2022 4114
Ffacs: 029 2022 4113

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â gwaith Cyngor Rheolaeth Cymru, piciwch i mewn i'n gwefan:
www.walesmanagementcouncil.org.uk

DYNA WAHANIAETH MEWN UN FLWYDDYN

Ian Rees - *Cadeirydd*

O edrych yn ôl ar fy rhagair i'n Hadolygiad Blynyddol diwethaf ar gyfer 2003 – 2004 yr hyn sy'n fy nharo a'm calonogi yw'r newidiadau radical sydd wedi digwydd ar lefel strategol a lefel ymarferol oddi ar hynny.

Crynodeb gan ein Prif Weithredwr, Christopher Ward, o weithgareddau Cyngor Rheolaeth Cymru yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yw byrdwn hyn o Adolygiad. Mae'n drawiadol i'w ddarllen, er mai fi fel Cadeirydd sy'n dweud hynny, ac mae'n ategu'r hyn y gwnaethom ei haeru y llynedd, sef ein bod yn cyflawni mwy na'r disgwyl, ac yn ychwanegu gwir werth at yr adnoddau a roddir inni.

Ond hoffwn osod hyn oll mewn cyd-destun ehangach, a dweud bod tirwedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru wedi newid yn eithaf sydyn er gwell, yn fy marn i.

Gadewch imi gynnig pump enghraifft:

- mae ysbryd newydd o weithredu cydweithredol a chydweithrediadol rhwng ELWa a'r WDA, fel y gwelir yn y ffocws ar ddatblygu sgiliau, ac yn anad dim sgiliau rheoli ac arwain, sydd bellach wedi'i ymgorffori mewn cyngor sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Busnes Cyffredinol blaenllaw

- mae argymhellion Adolygiad ELWa o Ddysgu yn y Gweithle, sy'n ffurfio rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth newydd ar gyfer 2005, yn rhoi pwyslais manwl ar ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr, ac rwy'n falch o weld eu bod yn ymgorffori ein holl argymhellion a'n blaenoriaethau ninnau

- mae'r Adolygiad o Ddysgu yn y Gweithle hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer cynnydd blynyddol yn y gwariant ar ddatblygu sgiliau busnes lefel uwch uniongyrchol gyda chyflogwyr, o tua £6.5 miliwn yn awr i o leiaf £30 miliwn dros bum mlynedd

- mae rhaglen Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru wedi parhau i helpu cwmnïau yng Nghymru i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ond yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, gwelsom hefyd gyhoeddi astudiaethau achos arfer gorau yn ein hadroddiad Cymru Uchel Ei Pherfformiad, a'r enghreifftiau personol o ragoriaeth mewn arweinyddiaeth yn enillwyr Gwobrau Arwain Cymru 2005

- mae astudiaeth fapio Prifysgol Caerdydd o ddatblygiad rheolwyr ac arweinwyr o ochr y cyflenwi, a'n hymchwil ategol ninnau i ochr y galw wedi darparu cronfa ddata sylfaenol am y tro cyntaf y bydd modd ei defnyddio wrth fesur cynnydd yn y dyfodol.

Credaf ein bod wedi cyflawni llawer dros y 12 mis diwethaf. Cynnal y momentwm yn ystod y flwyddyn nesaf hon a chyflawni'r cynlluniau gweithredu a osodwyd fydd yr her i'r llywodraeth a'i hasiantaethau. Mae datblygu sgiliau busnes lefel uchaf bellach wedi cydio'n gadarn yn yr agenda yng Nghymru. Mae'r trosglwyddiad i ddull mwy integredig o weithredu wrth i'r WDA ac ELWa symud i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cyfle ardderchog ar gyfer llunio polisïau eglur a hybu rheolaeth ac arweinyddiaeth fel un o gonglfeini datblygu economaidd. Pwysaf ar y llywodraeth i fachu'r cyfle gan sicrhau bod Cymru'n mwynhau'r manteision a ddaw yn sgîl rhagoriaeth mewn rheolaeth.

Ian Rees,
Cadeirydd,
Cyngor Rheolaeth Cymru

TRO AR FYD

Christopher Ward – *Prif Weithredwr*

Christopher Ward,
Prif Weithredwr,
Cyngor Rheolaeth Cymru

Gan edrych yn ôl ar y llynedd, cawn deimlad bod tro ar fyd yn hanes datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru, a hynny ar ffurf rydym wedi dadlau drosti, ond heb ei gweld, ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn rhoi hyd yn oed mwy o ffocws a phwysigrwydd i'n rôl, felly credais y byddai'n ddefnyddiol dechrau trwy gynnig trosolwg o sut rydym ni'n gweld y rôl honno, ac yna edrych yn fanylach ar yr amrywiaeth eang o weithgareddau yr oeddem yn rhan ohonynt yn ystod 2004 – 2005.

Ailgyfansoddwyd Cyngor Rheolaeth Cymru ym 1998 i ddefnyddio ei ddylanwad ar ochr y cyflenwi acr ochr y galw fel ei gilydd, er mwyn

- arwain yr ymgais i wella ansawdd a swm cyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru
- annog rheolwyr ac arweinwyr ymhob sector o'r economi i wella'u sgiliau.

Ers hynny, mae Cyngor Rheolaeth Cymru wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r amcanion hyn trwy

- ddatblygu strategaeth allweddol ar gyfer datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru
- ymchwil gadarn ac addysgiadol
- rhannu arfer gorau
- eiriolaeth gref.

Mae Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd cymhleth lle mae'n rhaid i'n dylanwad effeithio ar bolisïau'r llywodraeth, y cyllid y mae asiantaethau allweddol yn ei ddarparu, cyflenwad AU, AB a darparwyr y sector preifat, a rheolwyr eu hunain mewn cwmnïau a sefydliadau ymhob sector.



Ein nod yw gwella ansawdd rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru trwy ymchwil drylwyr i faterion sy'n ymwneud â'r farchnad, gan weithredu fel symbylydd newid a chatalydd gwelliant trwy gydweithio, a thrwy fod yn eiriolwyr brwd dros bwysigrwydd datblygiad rheolwyr ac arweinwyr ymhob sector a sefydliadau o bob maint.



O'i gyflwyno mewn ffordd fwy personol ac ymarferol, ein rôl ni yw bod â gweledigaeth gyffredinol ynghylch datblygu rheolaeth ac arweinyddiaeth yng Nghymru, ac yna gweld beth sy'n digwydd, a beth y mae'r farchnad yn chwilio amdano, mynegi hyn yn eglur i bawb sydd angen gwybod, dylanwadu ar newid i ddiwallu anghenion y farchnad, a gwneud popeth o fewn ein gallu gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd gennym i gyfrannu at lunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso polisïau.



Y llynedd, fe wnaethom dderbyn cyfanswm o £258,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu ein gweithgareddau, a defnyddiwyd yr arian yn y modd canlynol:

Staff:	39%
Teithio:	5%
Swyddfa:	22%
Cyhoeddusrwydd a'r wefan:	7%
Ymchwil a chyhoeddiadau:	24%
Achlysuron a chynadleddau:	3%



Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau o gyflawni ein hamcanion a lledaenu ein neges:

- ymchwil i'r farchnad
- cyhoeddiadau
- gwefan
- cylchlythyr
- gwaith pwyllgor
- cyflwyniadau
- y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus
- cynadleddau a seminarau
- rhannu arfer gorau
- adnoddau gwybodaeth
- datblygu rhwydwaith
- monitro a gwerthuso
- cydweithio y tu allan i Gymru

Wele grynodeb o'n gweithgareddau ymhob un o'r meysydd uchod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymchwil i'r farchnad

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddau ddarn o ymchwil y mae ELWa yn eu hariannu, ac wedi bod yn rhan ohonynt:

- Mapping of management and leadership development provision
  Yr Uned Arweinyddiaeth a Menter a Datblygu Economaidd, Ysgol Fusnes Caerdydd.
  Cyhoeddwyd fis Ebrill 2004.

- Diagnostic tools for SME managers
  CRG. Cyhoeddwyd fis Gorffennaf 2004.

Mae'r ddau adroddiad ymchwil hyn ar gael ar ein gwefan.

Fe wnaethom hefyd ariannu dau ddarn o waith ymchwil yn uniongyrchol ein hunain:

- Cymru Uchel ei Pherfformiad – gwir brofiad, gwir lwyddiant: perfformiad campus ymarferol yn y gwaith. John Stevens a David Ashton. Cyhoeddwyd fis Ionawr 2005.

- Datblygu Rheolwyr yng Nghymru – arolwg o'r arferion cyfredol 2004 - 2005
  Strategic Marketing. Cyhoeddwyd fis Chwefror 2005.

Cyhoeddiadau

Dyma gyhoeddiadau 2004 - 2005:

- Adolygiad Blynyddol 2003 -2004
- Gwasgu'r Botymau Iawn: marchnata datblygiad rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru
- Mentora yng Nghymru
- Cymru Uchel ei Pherfformiad: astudiaethau achos perfformiad campus yn y gwaith
- Datblygu Rheolwyr yng Nghymru: arolwg o'r arferion cyfredol

Christopher Ward a Robin Williams, Halo Foods, yn bwrw golwg trwy adroddiad Cymru Uchel ei Pherfformiad

Gwefan

Cafodd ein gwefan ei hailwampio ac ehangwyd ei chynnwys yn ystod 2004.

Cylchlythyr

Rydym wedi dechrau cyhoeddi cylchlythyr newydd Rheolaeth – Meddyliwch Amdani, bob deufis ar ein gwefan i ysgogi pobl i feddwl am ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr.

Gwaith pwyllgor

Rydym yn gwasanaethu ar y pwyllgorau canlynol:

- Grŵp Ymgynghorol Thematig 4 Amcan 1
- Grŵp llywio Partneriaeth ar Waith
- Grŵp marchnata Safonau Rheoli
- Grŵp Cyflogwyr Sgiliau Dyfodol Cymru
- Grŵp Datblygu Rheolwyr ELWa
- Grŵp llywio prosiect galluoedd Cronfa Fuddsoddi Gyffredin ELWa/WDA
- Skillset: Grŵp llywio prosiect datblygu rheolwyr
- Asset Skills: Grŵp llywio strategaeth datblygu rheolwyr
- Grŵp llywio Gwobrau Arwain Cymru
- Bwrdd Rheoli IOD Cymru
- Pwyllgor Rheoli Celfyddydau Gwirfoddol Cymru.

Cyflwyniadau

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe roesom gyfanswm o 17 i gyflwyniadau i:

- Y rhwydwaith Cyngor Sgiliau Sector (CSS) yng Nghymru
- Grŵp Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA)
- Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Bwrdd Ymgynghorol Cymru
- Cartrefi Cymru: Cynhadledd Flynyddol
- Coleg Gwent: Seminar Busnes
- Yr Eglwys yng Nghymru: Cynhadledd yr Esgobion
- Prifysgol Morgannwg: Cynhadledd Michael Porter
- Swyddfa Prif Swyddog Technoleg LICC: Diwrnod Datblygu
- LICC: Seminar Menywod mewn Rheolaeth
- Gwobrau Arwain Cymru: Lansio
- Deori Busnes y DU: Cynhadledd Genedlaethol

Yr Athro Michael Porter, yr Athro Michael Quayle a Christopher Ward yn sesiwn grynhoi cynhadledd Michael Porter yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd

- Cyngor Rheolaeth Cymru: Diwrnod Datblygu
- Prifysgol Aberystwyth: Myfyrwyr MBA y 3edd Flwyddyn
- Cydgyfarfod yr Ysgolion Busnes
- Rhwydwaith Dysgu'r Mentoriaid
- Grŵp Gweithwyr Cyswllt Gogledd Cymru: Model Rheolaeth ac Arweinyddiaeth BMP
- Cyfarfod Lansio Gogledd Cymru Buddsoddwyr mewn Rhagoriaeth

Christopher Ward, David Clutterbuck a Gary Ince, Prif Weithredwr y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) yn y Gynhadledd ar Fentora, yng ngwesty Miskin Manor

Y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus

Byddwn yn cyfrannu'n rheolaidd at golofn yn Business in Wales a llwyddasom i annog y Western Mail a'r Daily Post i gynnwys erthyglau a datganiadau i'r wasg.

Cynadleddau a seminarau

Cawsom gynhadledd Mentora yng Nghymru lwyddiannus dros ben, dan arweiniad David Clutterbuck, mewn cydweithrediad ag ILM, ac rydym yn cydweithio'n agos â CMI, CIPD, ILM, IOD, a CIM er mwyn cynnal cynhadledd ar y cyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru fis Tachwedd 2005.

Rhannu arfer gorau

- Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru

Trwy gydol 2004 – 2005 rydym wedi rheoli rhaglen Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio drwy Ganolfan Ansawdd Cymru.

Bwriedir ymweliadau Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru i helpu rheolwyr i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill. Byddwn yn cyflenwi hyn ag astudiaethau achos ar ein gwefan, sy'n rhannu'r gwersi arfer gorau hyn â chynulleidfa ehangach.

Jacqui Royall, Cyfarwyddwr Gweithredu, PerkinElmer, yn annerch yng nghinio Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru fis Mehefin 2004

Noddwyr ac enillwyr Gwobrau Arwain Cymru (o'r chwith i'r dde) Gareth Bray, Ian Hopkins (enillydd), Charles Middleton, Alistair Neill (enillydd), Derek Morgan, John Bath (enillydd), Christopher Ward, Lottie Miller (enillydd), Lynne Sheehy.

- Rhwydweithiau Gogledd Cymru

Mae Gweithrediaeth Gogledd Cymru wrthi'n chwarae rhan allweddol yn y dasg o ddatblygu rhwydweithiau rheolwyr ac arweinwyr yng Ngogledd Cymru a chyfrannu atynt.

- Gwobrau Rheolaeth

Rydym yn aelodau allweddol o'r consortiwm a reolodd Wobrau Arwain Cymru a gynhaliwyd am y tro cyntaf gyda chryn lwyddiant fis Chwefror 2005. Cânt eu cynnal eto yn 2006.

Datblygu rhwydwaith

Rydym wedi sicrhau cysylltiadau cynyddol gynhyrchiol â rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes - IOD, CMI, ILM, CIPD, CIM, yr Eglwys yng Nghymru, a cholegau AB – ac wedi sefydlu rhwydweithiau newydd o Ysgolion Busnes ac ymgynghorwyr hyfforddi a datblygu.

Grŵp Ymgynghorwyr Cyngor Rheolaeth Cymru yn cyfarfod i ffurfio ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru "Creu'r Cysylltiadau"

Monitro a gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr yn hanfodol bwysig er mwyn:

- darganfod beth sy'n digwydd, a ble
- asesu ansawdd y ddarpariaeth
- gwerthuso'r manteision
- llunio argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae ymarfer mapio Ysgol Fusnes Caerdydd a'n gweithiau ymchwil ni, sef Datblygu Rheolwyr yng Nghymru a Cymru Uchel ei Pherfformiad, oll wedi gwneud cyfraniad i'r maes. Ac rydym wedi symbylu mwy o waith gydag Ysgol Fusnes Caerdydd i ddatblygu offeryn i helpu SMEs i werthuso effaith eu gweithgareddau datblygu rheolwyr ac arweinwyr hwy.

Cydweithio y tu allan i Gymru

Rydym yn parhau â'n cydweithio â'r Management and Leadership Network, (MLN), sef y corff sy'n cyfateb i ni yng Ngogledd Iwerddon, trwy adnoddau ar ein gwefannau ein gilydd, cyfnewid adroddiadau a deialog a chyfarfodydd rheolaidd.

Mae effaith gyfunol y rhaglen weithgareddau hon a'r argymhellion sy'n ymwneud â datblygu rheolwyr ac arweinwyr a geir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 ac yn Adolygiad y Cyngor Cenedlaethol-ELWa o Ddysgu yn y Gweithle, yn golygu y bu llawer o gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth roi amcanion ein Hagenda ar gyfer Gweithredu (a gyhoeddwyd yn 2003) ar waith, a bod hwb cryfach fyth i osod datblygiad rheolwyr ac arweinwyr ar frig yr agenda yn genedlaethol.

Yn gynnar yn 2005 byddwn yn cyhoeddi dogfen strategol newydd, sef Arweinwyr a Rheolwyr yng Nghymru - Agenda ar gyfer Twf, a fydd yn ychwanegu at yr argymhellion a'r gweithredu hyd yma i bennu ffocws newydd ar gyfer datblygu rheolwyr ac arweinwyr yng Nghymru.

Ac yn olaf ….. fis Rhagfyr 2004 gwnaethom symud i'n swyddfeydd newydd yn 25 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd.

Bellach mae gennym fwy o le, a'n hystafell gyfarfod ein hunain – rhywbeth amheuthun na fu gennym o'r blaen – fel bod modd i ni eich gwahodd chi i ddod atom ni.

Gobeithio y byddwch yn gwneud hynny!

Lansio'r Safonau Rheoli newydd (o'r chwith i'r dde) Dave Hall, cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol, Learndirect yr Alban; Mary Chapman, prif weithredwr, Sefydliad Rheolaeth Siartredig; Bill Manson, prif weithredwr, Management and Leadership Network, Gogledd Iwerddon; Christopher Ward, prif weithredwr, Cyngor Rheolaeth Cymru

Swyddfa newydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn 25 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd

AELODAU A STAFF Y CYNGOR

Aelodau o'r Cyngor yng Nghyfarfod Cyngor Chwefror 2005

Aelodau'r Cyngor

- Aelodau fu'n gwasanaethu trwy gydol 2004 - 2005

Ian Rees (Cadeirydd)	Riverside Water Technologies
Laurence James (Ysgrifennydd)	Bond Pearce
Eileen Murphy	Cynghorydd gyda'r Sector Gwirfoddol
Nonna Woodward	IOD a Phapurau Newydd Gogledd Cymru
Yr Athro Michael Quayle	Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg
Chris Young	Fforwm Electroneg Cymru
Jacqueline Royall	Perkin Elmer
Peter Hurley	Orange Box
Gary Mawer	UPL
Rob Farnham	Quality Plus
Andrew Wilkinson	HSBC

- Aelodau a adawodd y Cyngor yn 2004 - 2005

Allan Martin	Fforwm Electroneg Cymru a Gyrfa Cymru
Carl Hadley	Rockwood Cyf ac UWS Ventures
Yr Athro Dylan Jones-Evans	NEWI
Pauline Kotschy	Pauline Kotschy Associates
David Willcox	Nu-Aire Group

- Aelodau a ymunodd â'r Cyngor yn 2004 - 2005

Roger Evans	Ina Bearing
David Finch	Coleg Ystrad Mynach

Arsylwyr

Robert Macey	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Richard Rossington	Llywodraeth Cynulliad Cymru
John V Williams	ACCAC

Christopher Ward, Gwyneth Stroud a Tina Stephens

Staff

Christopher Ward	Prif Weithredwr	christopher.ward@crc-wmc.org.uk
Gwyneth Stroud	Gweithredwr Marchnata	gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk
Tina Stephens	Gweithredwr Gogledd Cymru	tinastephens@btopenworld.com